GEM Cymru

# Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth

## Hyfforddiant Bathodyn Ansawdd ar gyfer sefydliadau treftadaeth yng Nghymru

Yng Nghymru, mae Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth yn greiddiol i Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Hyrwyddir Dysgu y tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth hefyd ym Magloriaeth Cymru ac yn y Cyfnod Sylfaen newydd. Mae Estyn yn gofyn yn awr bod ysgolion yn adrodd ar ddarpariaeth Dysgu y tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth yn eu ffurflenni hunan-arfarnu. Mae Dysgu y tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth hefyd yn dod yn nodwedd gynyddol o bolisi llywodraeth mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Fel darparwyr allweddol o brofiadau Dysgu y tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth, mae'n bwysig bod sefydliadau treftadaeth yng Nghymru yn arfarnu a datblygu eu harferion yn gyson, ac adeiladu partneriaethau dysgu ystyrlon a thymor hir gydag ysgolion a grwpiau eraill o bobl ifanc.

**Y Bathodyn Ansawdd**

Mae'r Bathodyn Ansawdd yn un ffordd o sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu yn cwrdd ag anghenion pobl ifanc a bod y bobl ifanc hynny yn dod i glywed am y gwasanaethau ardderchog y mae sefydliadau treftadaeth yn eu darparu.

Er mai'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a sbardunodd y cynllun, gall *unrhyw* sefydliad neu leoliad sy'n darparu profiadau Dysgu y tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth ar gyfer pobl ifanc wneud cais am Fathodyn Ansawdd. Y gobaith yw y daw'n arwydd o ddarpariaeth ddysgu ddiogel, o safon uchel, y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn ei chydnabod ac yn ymddiried ynddi.

Mae sefydliadau yng Nghymru sydd eisoes wedi ennill y Bathodyn Ansawdd yn cynnwys Gorsaf Bŵer Wylfa, Stad Cwm Elan, Cymdeithas Sŵoleg Cymru a Techniquest ym Mae Caerdydd.

**Yr hyfforddiant**

Er mwyn helpu sefydliadau treftadaeth yng Nghymru i ddysgu mwy am Fathodyn Ansawdd Dysgu y tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth, mae GEM a GEM Cymru yn cynnal diwrnod hyfforddi:

- Dydd Llun 7 Rhagfyr 2009 – Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, Caerdydd

Bydd y rhaglen yn dechrau am 10.00 ac yn gorffen am 16.00. Y nod yw gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth bobl o gynllun y bathodyn, a helpu pobl i wneud cais llwyddiannus amdano.

Rhedir y digwyddiad gan hyfforddydd Bathodyn Ansawdd cymwysedig.

**Pwy ddylai ddod?**

- Cynrychiolwyr o sefydliadau treftadaeth megis amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifdai, tai hanesyddol, safleoedd treftadaeth diwydiannol ayb., sydd â diddordeb mewn dysgu am/neu wneud cais am y Bathodyn Ansawdd.
- Arbenigwyr dysgu neu'r rheiny sy'n cynllunio ac yn darparu rhaglenni dysgu mewn sefydliadau/safleoedd treftadaeth.

**Camau nesaf**

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn archebu lle yn y digwyddiad hwn, yna gallwch lwytho'r ffurflen archebu oddi ar wefan GEM www.gem.or.uk, neu gysylltu â swyddfa GEM: office@gem.org.uk neu 01634 853 424.

**Noder mai dim ond 30 o lefydd sydd ar gael yn y digwyddiad. Felly archebwch eich lle'n gynnar, rhag cael eich siomi.**

**Gwybodaeth bellach**

- **Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Dysgu y tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth, ymwelwch â www.lotc.org.uk**
- **I gael mwy o wybodaeth am y Bathodyn Ansawdd ac i wneud cais amdano, ymwelwch â www.lotcqualitybadge.org.uk**
- **I gael mwy o wybodaeth am Bartneriaeth Dysgu yn y Byd Go Iawn Cymru, ymwelwch â http://www.rwlcp.org/rwlpe2res.htm**